# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0735(ECT) a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ar 20 Tachwedd 2008

**At Andrew R.T. Davies:**

Yn fy ymateb i chi yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 12 Tachwedd 2008, dywedais y byddwn yn ysgrifennu atoch ynghylch amseriad penderfyniad ar gyhoeddiad o ganlyniadau'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gyfer gwella mynediad i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd.

Cafwyd ymateb sylweddol i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus, a ddaeth i ben ar 3 Hydref 2008, gyda dros 3,000 o ffurflenni sylwadau wedi'u derbyn. Bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried yn ofalus a gobeithiaf fod mewn sefyllfa i wneud cyhoeddiad yng Ngwanwyn 2009.